

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Amddiffyn Meysydd Chwarae Ysgolion Protecting School Playing Fields

Q12 Mark Isherwood: Will the First Minister make a statement on the protection of school playing fields? OAQ1527(FM)

C12 Mark Isherwood: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am amddiffyn meysydd chwarae ysgolion? OAQ1527(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): Cases of school playing field disposal in Wales are isolated and require consultation with the Sports Council for Wales before they can take place. The School Premises Regulations 1999 also apply, setting out minimum requirements which have to be observed for team-game playing fields.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae'r achosion o waredu meysydd chwarae ysgolion yn brin iawn ac mae gofyn ymgynghori â Chyngor Chwaraeon Cymru cyn y gellir gwneud hynny. Mae Rheoliadau Adeiladau Tiroedd Ysgolion 1999, sydd yn nodi'r ystyriaethau sy'n ofynnol ar gyfer meysydd chwarae gemau tîm, hefyd yn gymwys.

Gwaharddiad ar Ysmygu Smoking Ban

Q13 David Lloyd: Will the First Minister make a statement on progress with the implementation of the smoking ban? OAQ1516(FM)

C13 David Lloyd: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r gwaharddiad ar ysmygu? OAQ1516(FM)

The First Minister: As indicated in reply to Peter Black last week, good progress is being made with our preparations for the ban, which is hoped to be in force by summer 2007, but corners will not be cut in putting the necessary arrangements in place.

Y Prif Weinidog: Fel yr oedd yr ateb a roddwyd i Peter Black yr wythnos diwethaf yn ei ddangos, mae ein paratodau ar gyfer y gwaharddiad yn mynd yn eu blaen yn dda. Mae gobaith y bydd y gwaharddiad mewn grym erbyn haf 2007, ond ni fyddwn yn cymryd llwybr tarw wrth wneud y trefniadau.

Arian y GIG NHS Finances

Q14 Helen Mary Jones: Will the First Minister make a statement on NHS finances? OAQ1514(FM)

C14 Helen Mary Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am arian y GIG? OAQ1514(FM)

The First Minister: As at the end of January, eight out of the 14 NHS trusts were

Y Prif Weinidog: Ar ddiwedd mis Ionawr, roedd wyth o'r 14 ymddiriedolaeth GIG yn

forecasting that they would have overspends against their breakeven targets in 2005-06. These trusts are currently preparing recovery plans to address any underlying problems and to recover any overspends they made in 2005-06.

darogan y byddent wedi gorwario yn erbyn eu targedau adennill costau yn 2005-06. Ar hyn o bryd, mae'r ymddiriedolaethau hyn yn darparu cynlluniau adfer er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau gwaelodol ac adennill unrhyw orwario a fu yn 2005-06.

Clefyd Parkinson Parkinson's Disease

Q15 Catherine Thomas: Will the First Minister make a statement on Parkinson's Awareness week? OAQ1519(FM)

C15 Catherine Thomas: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wythnos Ymwybyddiaeth Clefyd Parkinson? OAQ1519(FM)

The First Minister: Parkinson's Awareness week ran from 24–30 April. The Welsh Assembly Government welcomes awareness raising activity such as this, which plays a valuable role in raising the profile of chronic conditions.

Y Prif Weinidog: Roedd wythnos Ymwybyddiaeth Clefyd Parkinson rhwng 24 a 30 Ebrill. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn croesawu'r math hwn o weithgarwch codi ymwybyddiaeth, sydd yn chwarae rhan werthfawr wrth godi proffil cyflyrau cronig.